

# ytafod<sup>e</sup>

cylchgrawn cymdeithas yr iaith



# ytafod<sup>®</sup>

Rhifyn gwanwyn 2022

Golygyddion: **Mared Llywelyn**

**Carol Jenkins**

Dylunio a Chysodi: **Carwyn Hedd**

Gair o'r Gadair

Uno'r Genedl

Chwoant

Ail Dai

Nwyddau newydd a mwy

**Mabli Siriol**

**Toni Schiavone**

**Cymdeithas Cymru Llydaw**

**Galwad gan bobl ifanc**

**cymdeithas<sup>®</sup>** o bobol sy'n gweithredu'n ddi-drais  
dros y gymraeg a chymunedau cymru  
fel rhan o'r chwyldro rhyngwladol dros hawliau a rhyddid



## Gair o'r gadair

### Addysg Gymraeg i Bawb – mae'r amser i dwtio wedi pasio

Mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb yng Nghymru, o ba bynnag gefndir a ble bynnag maen nhw'n byw.

Ond ar hyn o bryd, mae 80% o bobl ifanc Cymru yn cael eu hamddifadu o'r iaith oherwydd methiant ein

system addysg i dyfu a normaleiddio addysg Gymraeg. Mae hyn yn anghyfiawnder sylfaenol, wedi'i waethygu gan y ffaith taw plant o rai cefndiroedd cymdeithasol ac ardaloedd penodol sy'n cael eu hamddifadu fwyaf, yn enwedig

cymunedau difreintiedig a phobl groenliw. Hyd yn oed mewn ardaloedd lle siaredir yr iaith gan fwyafrif y boblogaeth, mae nifer o bobl ifanc yn colli eu sgiliau iaith wrth fynd trwy'r system addysg oherwydd diffygion yn y system uwchradd a'r drefn asesu.

Mae Cymdeithas yr Iaith eisiau sicrhau bod pob disgybl yn gadael yr ysgol gyda'r gallu i gyfathrebu'n hyderus yn y Gymraeg, nid y lleiafrif ffodus yn unig. Ni ddylai eich cefndir cymdeithasol, yr ardal lle rydych chi'n byw neu fympwy cynghorau sir rwystro hynny.

Mae'n hollbwysig felly bod y Ddeddf Addysg Gymraeg newydd mae'r Llywodraeth yn ei chynllunio yn gosod nod statudol o symud tuag at addysg cyfrwng Gymraeg i bob plentyn erbyn dyddiad penodol, ynghyd â chylfndrefn newydd o gynllunio ac ariannu addysg Gymraeg ar lefel leol a chenedlaethol, gyda thargedau statudol o ran darpariaeth Gymraeg a'r gweithlu (gweler [cymdeithas.cymru/achosdeddfaddysg](#)).

Fe wyddon ni fod mwyafrif pobl Cymru'n cytuno gyda ni y dylai pawb adael yr ysgol yn medru'r Gymraeg, ac rydyn ni i gyd wedi clywed oedolion di-Gymraeg yn dweud eu

bod yn difaru na chawson nhw'r cyfle i ddysgu'r iaith yn blentyn. Ond yn anffodus, mae'r dyheadau hyn ac uchelgais naturiol pobl Cymru dros yr iaith wedi cael eu llesteirio dros y blynyddoedd gan sefydliad gwleidyddol llwfr a hunan-fodlon.

Mae hyn yn amlwg ym mhenderfyniad diweddar Cymwysterau Cymru i beidio â chyflwyno un cymhwyster Cymraeg i bob disgybl, er gwaethaf yr holl dystiolaeth taw dyma beth sydd ei angen. Mae Cymwysterau Cymru yn cytuno gyda ni, erbyn hyn, taw un cymhwyster sydd ei angen, ac yn dweud taw'r nod yw cyflwyno hynny 'rywbryd yn y dyfodol'. Ond os ydy pawb yn gytûn taw dyma sydd orau i'n pobl ifanc, pam oedi?

Holl nod cwricwlwm newydd Cymru yw sicrhau bod pob plentyn yn gallu gwneud cynnydd addysgol heb nenfwd artiffisial ar eu cyrhaeddiad – mae'r egwyddor hon yn cael ei gweithredu i bob maes dysgu heblaw'r Gymraeg. Y canlyniad yw cenedlaeth arall o blant yn colli allan oherwydd diffyg gweledigaeth ein hawdurdodau.

Gwelwn hefyd er gwaethaf y rhethreg a rhai camau cadarnhaol (diolch i ymdrechion ymgyrchwyr) bod polisiau addysg y Llywodraeth

yn parhau i fod yn annigonol i gyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr erbyn 2050. Mae'r system bresennol o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg wedi methu cyrraedd targedau'r Llywodraeth ers blynnyddoedd, ac mae'r twf blynnyddol mewn addysg Gymraeg ar gyfer plant 7 mlwydd oed yn llai nag 1% y flwyddyn. Methodd y Llywodraeth ei tharged blaenorol ar gyfer y canran o blant 7 mlwydd oed mewn addysg Gymraeg (25% erbyn 2015) felly fe wnaethon nhw leihau'r targed ar gyfer y cyfnod nesa (24% erbyn 2021) ond maen nhw wedi methu â chyrraedd hynny hefyd. Dros y blynnyddoedd, mae gostyngiadau cyson wedi bod hefyd yn nifer yr athrawon sy'n hyfforddi ac yn gallu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae'r Llywodraeth wedi methu eu targedau diweddar o ran hynny hefyd.

Mae'n amlwg bod angen mwy o uchelgais a mwy o weithredu. Ac ynghyd â'r Deddf, mae angen mesurau eraill, gan gynnwys:

- sefydlu un llwybr dysgu ac asesu'r Gymraeg i bob disgybl
- buddsoddi £10 miliwn y flwyddyn i hyfforddi'r gweithlu addysg
- clustnodi £20 miliwn ar gyfer prentisiaethau cyfrwng Cymraeg
- cyflwyno gwersi Cymraeg am ddim i bob oedolyn

- buddsoddi mewn gweithgareddau hamdden cyfrwng Cymraeg ymhob rhan o'r wlad

Ers datganoli, mae polisi cyhoeddus yng Nghymru wedi bod yn fater o dwtio fan hyn a fan draw, heb newid y drefn mewn gwirionedd. Ond, rydyn ni'n dechrau gweld parodrwydd gan wleidyddion i wneud pethau'n wahanol, ac ystyried camau mwy pellgyrhaeddol.

Mae'r amser i dwtio wedi hen basio, mae angen chwyldroi ein system addysg.

Gyda'r ddeddf newydd, mae gennym gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i sicrhau fod pawb yng Nghymru yn gallu dysgu, defnyddio a mwynhau'r Gymraeg mewn modd ystyrlon. Bydd cryfhau'r Gymraeg yn y system addysg hefyd yn ei chryfhau yn ein cymunedau – gan wneud y Gymraeg yn briod iaith bywyd bob dydd ymhob man.

Cymerwn y cyfle hwn a sicrhau ein bod yn rhoi'r Gymraeg i bob plentyn a'i hadfer ymhob cymuned o'r diwedd. Addysg Gymraeg i **bawb** rydyn ni am ei weld, ac ni fyddwn yn bodloni gyda dim llai.

# RALI AR FAES Y STEDDFOD

2pm Dydd Iau 4ydd Awst



# Uno'r Genedl

## Un Cymhwyster Cymraeg i Bawb

### Un continwmm iaith ac un continwmm asesu

Cred Cymdeithas yr Iaith y dylid datblygu arholiad cyfannol, ac amlinellwyd trefniadau asesu a fyddai'n cydnabod yr ystod o gyraeddiadau yn ein dogfen 'Un Cymhwyster Cymraeg iaith i Bawb' (Ebrill 2019). Roedd yr argymhellion yma yn deillio o ymgynghoriad gydag arbenigwyr yn y maes gan gynnwys athrawon Cymraeg, penaethiaid adran, athrawon ymgynghorol, ymgynghorwyr iaith, y Comisiynydd iaith, cynghorwyr, UCAC, dysgwyr ac aelodau'r cyhoedd. Cynhaliwyd seminar agored ym mis Mai 2018.

Yn sgil y datblygiadau dros y tair blynedd diwethaf a Deddf y Cwricwlwm, rydym yn parhau i fod o'r farn mai arholiad cyfannol fyddai'r opsiwn gorau. Ar yr un pryd rydym yn cydnabod yr angen i ymateb i'r amrywiaeth o amgylchiadau dysgu. Argymhellwn y model isod a bod hynny yn sail ar gyfer dyfarniad deuol. Byddai'r dyfarniad yma yn gyfwerth â dau gymhwyster TGAU. Byddai'n gwbl

glir bod yr asesiad yn seiliedig ar ddisgwyliadau cyrhaeddiad ar hyd yr un continwmm iaith. Yr ysgol, ar sail arholiadau ysgol a gwaith cwrs y disgyblion, fyddai'n penderfynu pa arholiad fyddai fwyaf addas ar gyfer disgyblion unigol. Mae unrhyw drefn asesu nad yw'n seiliedig ar un continwmm dysgu ac asesu iaith yn annerbyniol. Rhaid cau'r bwch rhwng disgwyliadau a chyraeddiadau mewn Cymraeg iaith gyntaf ac ail-iaith y drefn bresennol a chreu un continwmm asesu. Os penderfynir ar ddau arholiad rhaid dangos y gorgyffyrddiad rhwng y naill a'r llall, cael gwared â nenfwd cyrhaeddiad, a chaniatáu i ddisgyblion gyrraedd lefelau cyrhaeddiad uwch beth bynnag yw cyd-destun ieithyddol yr ysgol. I ddyfynnu o adroddiad 'Un iaith i bawb, Adolygiad o Gymraeg ail-iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4' (Medi 2013):

"Yn ogystal â helpu cyflogwyr i ddeall y gwahaniaeth mewn lefelau sgiliau Cymraeg, gallai ategu nod

Llywodraeth Cymru o sicrhau bod dysgwyr sydd wedi derbyn addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cynradd yn parhau i ddatblygu ar ôl trosglwyddo i ysgol uwchradd."

Enghraifft o ddull asesu gwahaniaethol:

Asesiad cyfannol a dyfarniad deuol

A\* A B C D E F – Cymraeg Uwch  
A\* A B C D E F – Cymraeg

Pob disgybl i sefyll dau bapur arholiad:

1. papur arholiad cyffredinol Cymraeg/Cymraeg Uwch; byddai safonau cyrhaeddiad yn y papur yma yn ymestyn o radd B Cymraeg Uwch i radd F Cymraeg; A NAILL AI
2. papur arholiad Cymraeg Uwch, graddau safon Cymraeg Uwch fel y nodir uchod; NEU
3. papur arholiad Cymraeg, graddau safon Cymraeg fel y nodir uchod.

Byddai'r dyfarniad gradd terfynol yn seiliedig ar ganlyniad y ddau bapur.

Mantais y model yma yw y byddai'r disgwyliadau ar gyfer y naill bapur a'r llall yn gwbl glir ac yn gorgyffwrdd. Byddai hynny yn ei dro yn cynnig cyfle i ddisgyblion uwch eu gallu yn y Gymraeg, ond sy'n sefyll

arholiad 'Cymraeg,' gyrraedd gradd B 'Cymraeg Uwch' a chael cydnabyddiaeth am hynny. Gall y model hefyd osod disgwyliadau a nod cyrhaeddiad uwch i ddisgyblion a rhoi'r cyfle i ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng dwyieithog/ Saesneg sefyll arholiad Cymraeg Uwch, gan wybod y byddant yn derbyn gradd Gymraeg, hynny yw dyfarniad deuol, fel yr awgrym yn 'Un iaith i bawb, Adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4' (2013).

Er bod yna ddau asesiad yn y model uchod, mae'r gorgyffwrdd yn golygu bod yna un continwmm asesu yn seiliedig ar yr egwyddor o un continwmm iaith. Erbyn hyn mae Cymwysterau Cymru yn cydnabod yr angen am un continwmm asesu – ond heb gynnig amserlen gweithredu. Yn wir, yr unig beth mae'r corff yma'n ei gynnig yw ail-frandio Cymraeg ail iaith – trefn sy'n golygu y bydd 80% o bobl ifanc Cymru yn gadael yr ysgol heb allu siarad a chyfathrebu'n hyderus yn y Gymraeg. Trefn sydd wedi methu dros ddegawdau. Ni fydd cynnydd yn nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg heb gynnydd yn y rhai sy'n gadael ysgolion yn rhugl yn y Gymraeg.

**Toni Schiavone**  
Cadeirydd y Grŵp Addysg

# Cystadleuaeth crysau-T

Cynhaliwyd cystadleuaeth yn ddiweddar i greu cynllun ar gyfer crys-T i nodi chwedeg mlwyddiant y Gymdeithas. Roedden ni'n edrych am gynllun trawiadol a chyfoes oedd yn adlewyrchu chwe degawd o ymgyrchu, aberthu a brwydr y chwyldro yng Nghymru – a hynny heb ddefnyddio'r rhif 60!

Mae'r beirniaid – Steffan Dafydd (Penglog), Mirain Owen (Swyddog Mentrau Masnachol y Gymdeithas) a Carwyn Hedd (Carw Piws a Swyddog Dylunio'r Gymdeithas) – wedi cyfarfod, trafod a chytuno ar enillydd ar gyfer y categori oedolion a'r categori plant. Dyma air gan un o'r beirniaid, Steffan Dafydd:

“Odd safon y dylunio yn uchel iawn gyda amryw o *styles* gwahanol, ac odd e'n sialens neis i fynd trwyddyn nhw mewn manylder. Da iawn i bawb! Roedd y ddau enillydd wedi llwyddo i greu delweddau *bold* iawn oedd yn defnyddio eiconograffi clyfar oedd yn dathlu gwaith Cymdeithas yr Iaith dros y blynyddoedd, dw i'n

edrych ymlaen i wisgo nhw a'u gweld nhw o amgylch y lle. Pen-blwydd hapus Cymdeithas!”

Yr un person sydd wedi ennill y ddau gategori, sef Osian Grifford. Mae Osian yn ddarlunydd llyfrau plant a nofelau graffeg o Langeitho, sy'n byw yng Nghaerdydd erbyn hyn. Dywed Osian ei fod wedi ceisio creu lluniau llawn hwyl sy'n dangos ysbryd uchelgeisiol a gwrthryfelgar Cymdeithas y Iaith, sy'n rhan fawr o orffennol a phresennol Cymru.



Osian Grifford

Crys-T oedolion



Crys-T plant



Bydd y crysau-T ar werth ar ein stondin yn Eisteddfod yr Urdd ac ar ein siop ar-lein!

## Bathodyn Pin Newydd!

Yn ogystal â'r crysau-T newydd sbon, rydyn ni hefyd wedi creu bathodyn pin arbennig i nodi'r 60 – yn lliwiau grŵfi'r 60au! Dim ond 200 o'r rhain fydd yn cael eu cynhyrchu felly peidiwch â cholli'r cyfle i fachu un. Byddan nhw ar werth ar ein stondin yn Eisteddfod yr Urdd ac ar ein gwefan am £6 yr un!

[cymdeithas.cymru/siop](http://cymdeithas.cymru/siop)



# CHWOANT

## Gŵyl unigryw i bontio Cymru a Llydaw

Ddydd Sadwrn y 23ain o Ebrill cafodd Gŵyl Chwoant ei chynnal yng Ngwersyll yr Urdd Caerdydd er mwyn pontio dau fyd. Croesawon ni unigolion gweithgar o Lydaw i gynnal paneli trafod a gweithdai gyda phobl ifainc cyfatebol o Gymru.

Roedd ymgyrchu iaith, podlediadau, comedi, y byd ffilm a cherddoriaeth gyfoes ymysg rhai o'r pynciau a gafodd eu trafod trwy gydol y dydd. Roedd yn gyfle hollol unigryw i dorri tir newydd gyda'r gobaith o gael mwyl o gydweithio yn y dyfodol.

O ystyried nad ydyn ni'n rhy bell yn ddaearyddol nac yn ieithyddol mae'n syndod nad ydyn ni'n gwybod llawer am ein gilydd - roedd yr ŵyl yn ffordd arbennig o lenwi'r bylchau hyn ac i naill ochr Môr Udd gyfoethogi'r llall gan rannu, dysgu ac ysbrydoli trwy ein profiadau. Roedd dysgu am y cyd-destun ieithyddol tebyg a'r

frwydr i greu, i fyw ac i ymgyrchu trwy gyfrwng yr ieithoedd hyn yn brofiad "cwbl amhrisiadwy" yn ôl Bethan Ruth, aelod a fynychodd yr ŵyl ac un o drefnwyr y digwyddiad.

Dywedodd Marine Lavigne, un o gantorion grŵp Ahez a wnaeth berfformio ar y dydd:

"Roedd wir yn ffrainc cael dod i Gymru er mwyn cymryd rhan yng Ngŵyl Chwoant er mwyn dysgu a rhannu gyda'r Cymry. Roedd yn fendigedig gweld Cymry a Llydawyr yn dawnsio fest-noz i'n perfformiad ni hefyd a 'da ni'n edrych ymlaen yn fawr rŵan i groesawu'r Cymry i Lydaw a pharhau gyda'r pontio!"



Partneriaeth rhwng Cymdeithas yr Iaith a phobl Cymru yw cynllun Diogelwn a sefydlwyd ryw ddwy flynedd yn ôl i ddiogelu enwau Cymraeg ar dai. Rydyn ni bellach wedi estyn y cynllun i gynnwys tir sydd ag enw Cymraeg (hyd yn oed os nad ydych yn bwriadu ei werthu ar hyn o bryd). Mae'n syniad syml

iawn, ac yn berthnasol i bawb sy'n byw yng Nghymru ac sy'n berchen ar dŷ neu dir ag enw Cymraeg.

Gallwch ddarllen mwy am y cynllun  
yma: [cymdeithas.cymru/diogelwn](http://cymdeithas.cymru/diogelwn)  
yn ogystal â lawrlwytho'r dogfennau  
cyfreithiol angenrheidiol i'w  
trosglwyddo i'ch cyfreithiwr.



## y cynllun diogelu tai a thir

Ar ôl methu cynnal digwyddiadau yn 2020 a 2021, rydyn ni'n edrych ymlaen yn eiddgar i fynd draw i Ddinbych eleni ar gyfer Eisteddfod yr Urdd. Byddwn yno gyda stondin yn ôl yr arfer, felly cofiwch ddod draw i'n gweld.

Rydyn ni'n cynnig aelodaeth blwyddyn  
am ddim i bawb o dan 21 oed sy'n galw  
draw i ymaelodi ar y stondin.

## Nwyddau newydd

## Arddangosfa hanes

# Deisebau a mwy!

Byddwn ni'n gofyn i bobl ifanc fydd yn chwilio am gartref i'w rentu neu i'w brynu yn ystod y blynyddoedd nesaf lofnodi galwad ar Lywodraeth Cymru i lunio strategaeth effeithiol i sicrhau y gallant gael cartref yn eu cymunedau lleol.

Dewch i lofnodi ar y stondin, ac ymunwch â ni i gyflwyno'r alwad i'r Llywodraeth ar brynhawn dydd Gwener ola Steddfod yr Urdd.

gwirfoddolwr  
gwleidyddol  
cyfreithiwr  
gobaith  
dylunydd  
radical  
protest  
dysgwr  
balchder  
di-drais  
ysbrydoli  
angerddol  
gweithredu  
ysgrifennwr  
dylanwadwr



ymgyrchydd  
cydwybodol  
llythyrwr  
trefnydd  
blaengar  
blogiwr  
artist  
**aelod**  
ieithgi  
cyfiawn  
gyrrwr  
cerddor  
tegwch  
cyfieithydd  
cyfeillgarwch

